

## PWYLLGOR CRAFFU BWRDD ADDYSG, SGILIAU A LLES

(Port Talbot Civic Centre / Remotely - Hybrid)

Aelodau sy'n Bresennol:

Dydd Iau, 13 Ebrill 2023

<b>Is-gadeirydd:</b>	<b>Cynghorydd D.Thomas</b>
<b>Cynghorwyr:</b>	W.Carpenter, M.Crowley, J.Henton, J.Jones, C.Lewis, P.A.Rees, S.Renkes, S.H.Reynolds a/ac D.Whitelock
<b>Aelodau Cyfetholedig sy'n Pleidleisio:</b>	M.Caddick
<b>Swyddogion sy'n Bresennol</b>	I.Guy, K.Gilvert, H.Thomas, J.Roberts, J.Haeney C.Millis, R.Crowhurst, S.McCluskie and A.Thomas
<b>Gwahoddedigion y Cabinet:</b>	Cynghorwyr J.Hurley and N.Jenkins

---

### 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Cadarnhawyd y byddai'r pwyllgor yn craffu ar eitemau 9, 10, 11 a 12 o Agenda Bwrdd y Cabinet.

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

### 3. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022, 8 Rhagfyr 2022 a 25 Ionawr 2023 fel cofnodion gwir a chywir.

### 4. CRAFFU CYN PENDERFYNU

### **Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda. Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r arweiniad newydd yn gosod dyletswydd statudol i bob disgybl gofrestru ar gyfer y system addysg. Nid oedd swyddogion yn gallu cadarnhau ai dyma fyddai'r achos nes bod yr arweiniad newydd yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch y cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref a'r addysg maent yn ei derbyn. Gofynnodd yr aelodau os oedd digon o staff i ymdrin â nifer y plant sy'n cael eu haddysgu gartref. Cadarnhaodd swyddogion fod dau gydlynnydd wedi'u cyflogi ar hyn o bryd a bod hynny'n ddigonol. Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr aelodau'r adroddiad er gwybodaeth.

### **Cydraddoldeb a Lle Diogel i Ddysgu**

Mae'r fenter ar gyfer ysgolion sy'n canolbwyntio ar y gymuned wedi dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru dros y 18 mis diwethaf. Amlinellodd swyddogion sut y mae Castell-nedd Port Talbot wedi defnyddio'r arian gan Lywodraeth Cymru i ganolbwyntio ar y maes hwn.

Gofynnodd yr aelodau os oedd unrhyw waith y gellid ei wneud gyda chyrrff llywodraethu i ddeall yn well y cysylltiadau cymunedol a'r pethau y gall sefydliadau yn y gymuned eu cynnig. Cynghorodd swyddogion fod y cwricwlwm newydd yn rhoi llawer o ffocws ar gynnwys y gymuned. Ymhellach at hynny, mae darn o waith yn cael ei wneud ar 'ddatblygu cymuned sy'n seiliedig ar asedau'. Mae hyn yn ystyried yr hyn sydd ar gael o fewn y cymunedau a sut i gynnwys ysgolion yn yr un sydd eisoes ar gael. Bydd yn rhoi ystyriaeth i drefniadau cyfatebol rhwng yr ysgolion a'r sefydliadau cymunedol. Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.

### **Adroddiad Urddas y Misglwyf**

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel a nodwyd yn y pecyn agenda. Cadarnhawyd bod ysgolion uwchradd yn derbyn cyllid i brynu eitemau fel bo angen. Cysylltir ag ysgolion cynradd drwy e-bost i ofyn a hoffent archebu cynnyrch ac os felly, pa gynnyrch sydd ei angen. Mae gan ysgolion cynradd hawl i brynu gwisgoedd ysgol newydd gyda'r cyllid hefyd.

Yn dilyn gwaith craffu, nododd yr aelodau'r adroddiad er gwybodaeth.

### **Adroddiad Diweddarau NEET (Heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant)**

Ystyriodd yr aelodau'r adroddiad fel y'i dosbarthwyd o fewn yr agenda.

Darparwyd y diweddaraf i aelodau am ffigurau presennol. Mae 2.2% o bobl ifanc yn pontio o'r ysgol i NEET. Dyma'r ail flwyddyn orau erioed o fewn Castell-nedd Port Talbot ac mae'n ymwneud â 35 person ifanc yn unig.

Gofynnodd yr aelodau am y ffigurau a gyflwynwyd ar y graff, yn benodol mewn perthynas â 2018. Cynghorodd swyddogion fod anghysondebau yn adroddiad Cymru Gyfan ar gyfer y flwyddyn honno, gan nad oedd un awdurdod lleol wedi cyflwyno'i ffigurau mewn pryd.

Mynegodd yr aelodau'r pryderon a amlinellwyd yn un o'r astudiaethau achos mewn perthynas â chŵn cymorth. Gofynnodd yr aelodau a fyddai'r awdurdod yn ystyried datblygu asesiad risg enghreifftiol i gefnogi hyn yn y dyfodol. Cynghorodd swyddogion eu bod yn ystyriol o'r sefyllfa ar gyfer y dyfodol.

Yn dilyn craffu, nodwyd cynnwys yr adroddiad.

#### 5. **BLAENRAGLEN WAITH 2022/23**

Nodwyd yr eitem er gwybodaeth.

#### 6. **EITEMAU BRYD**

Nid oedd unrhyw eitemau bryd.

## **CADEIRYDD**